# Nodyn Cyngor Cynllunio 5

# Polisi Cyhoeddusrwydd Mabwysiedig

| Math o Gais | Gofynion Statudol | Polisi CBSBG |
|---|---|---|
| Cais gyda Datganiad Amgylcheddol a/neu sy'n gwyro oddi wrth y cynllun datblygu a/neu a allai effeithio ar hawl tramwy cyhoeddus | Hysbysebu ar y safle am ddim llai na 21 diwrnod a hysbysebu mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn lleol | ▪ Hysbysebu ar y safle am ddim llai na 21 diwrnod a hysbysebu mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn lleol<br>▪ Llythyrau hysbysu ychwanegol at eiddo preswyl yn ôl disgresiwn y Rheolwr Gwasanaeth. |
| Ceisiadau mawr h.y. ceisiadau sy'n cynnwys unrhyw un o'r canlynol.<br>1. Datblygiad sy'n gysylltiedig â mwynau<br>2. Datblygiad gwastraff<br>3. Datblygiad preswyl o 10 uned neu fwy neu arwynebedd safle o dros 0.5 ha os yn amlinelliad<br>4. Adeiladau newydd ag arwynebedd llawr o dros 1000 metr sgwâr<br>5. Datblygiadau eraill lle mae'r safle yn 1ha neu fwy | Hysbysebu ar y safle mewn o leiaf un lle ar neu ger y tir am o leiaf 21 diwrnod neu drwy gyflwyno hysbysiad i unrhyw berchennog neu feddiannydd cyfagos a hysbysebu mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn lleol | ▪ Hysbysebu ar y safle mewn o leiaf un lle ar neu ger y tir am o leiaf 21 diwrnod<br>▪ Hysbysebu mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn lleol a/neu<br>▪ Dosbarthu llythyrau hysbysu i eiddo preswyl o gwmpas ffin safle'r cais. Pellter eiddo o'r safle yn ôl disgresiwn y Rheolwr Gwasanaeth. |
| Ceisiadau mân a cheisiadau eraill gan ddeiliaid tai | Hysbysebu ar y safle am o leiaf 21 diwrnod neu gyflwyno rhybudd i berchnogion/meddianwyr cyfagos | Bydd eiddo preswyl uniongyrchol gyfagos yn cael eu hysbysu drwy lythyr a/neu o leiaf un hysbysiad a ddangosir ar y safle neu'n agos ato. |
| Ceisiadau am Ganiatâd Hysbysebu a LDCau | Dim | Ceisiadau i'w hysbysebu yn ôl disgresiwn y Rheolwr Gwasanaeth |
| Hysbysiadau ymlaen llaw ar gyfer Telegyfathrebu, Coedwigaeth, amaethyddol neu ddymchwel | Yn dibynnu ar natur y cais, gofyniad i ddatblygwr godi hysbysiad safle | Dim. |
| Ceisiadau am Ganiatâd Adeilad Rhestredig neu Geisiadau i amrywio neu ryddhau amodau ar Adeilad Rhestredig lle maent yn effeithio ar ymddangosiad allanol. | Hysbyseb mewn papur newydd a hysbysiad safle | Hysbyseb mewn papur newydd a hysbysiad safle (a llythyrau at eiddo cyfagos yn ôl disgresiwn y Rheolwr Gwasanaeth) |
| Datblygiad sy'n effeithio ar leoliad adeilad rhestredig / cymeriad ardal gadwraeth | Hysbysebu ar y safle am o leiaf 21 diwrnod neu gyflwyno rhybudd i berchennog/meddiannydd cyfagos | Hysbysiad safle (a llythyrau at eiddo cyfagos yn ôl disgresiwn y Rheolwr Gwasanaeth) |

*Diweddarwyd Hydref 2023*